

national
wool
museum
amgueddfa
wlân
cymru

gwau geiriau

Pecyn adnoddau i diwtoriaid Cymraeg
ei ddefnyddio yn Amgueddfa Wlân Cymru

national
museum
wales
amgueddfa
cymru



Noddir gan
Lywodraeth
Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly
Government

gwau geiriau



Cennard Davies ddatblygodd yr adnoddau hyn mewn partneriaeth ag Adran Addysg Amgueddfa Cymru, dan nawdd Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Mae'r pecyn yn dangos sut y gall dysgwyr a thiwtoriaid ddefnyddio ymweliad ag Amgueddfa Wlân Cymru ym mhentref Dre-fach Felindre i wella eu sgiliau Cymraeg. Mae'n cynnwys deunyddiau sy'n helpu i baratoi ar gyfer ymweliad a gweithgareddau i'w gwneud yn ystod yr ymweliad.

Ein gobaith yw y bydd yr adnoddau hyn yn eich sbarduno chi i ymestyn eich gweithgareddau dysgu y tu hwnt i'r ystafell ddosbarth. Yn aml, gwelir ymweliadau ag amgueddfeydd fel rhywbeth 'ychwanegol', ond i ni mae gweithgareddau fel hyn wrth wraidd dysgu ac yn enghraifft o osod y Gymraeg mewn cyd-destun hanesyddol a diwylliannol. Gall dull fel hwn helpu i ehangu gormelion a magu hyder y myfyrwyr, yn ogystal â'u galluogi i ymarfer defnyddio'r Gymraeg mewn sefyllfaoedd go iawn.

Datblygwyd yr adnoddau gydag anghenion myfyrwyr lefel Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch mewn golwg. Y bwriad yw eu defnyddio gyda chasgliad parhaol yr Amgueddfa a llwybr y pentref, er mwyn amlinellu effaith hanesyddol a chymdeithasol y diwydiant gwlân ar Dre-fach Felindre.

Nodiadau i diwtoriaid
Gwybodaeth gyffredinol
Taflen Werthuso i Diwtoriaid
Taflen Werthuso i Fyfyrwyr
Students' Evaluation Sheet
Taith o gwmpas y pentref –
nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Mynediad 1 Darganfod cefndir pobl yn yr Amgueddfa
Mynediad 2 Holi un person am ei deulu/ ei theulu
Mynediad 3 Termiau
Mynediad 4 Dod i nabod y safle
Mynediad 5 Helfa drysor
Mynediad 6 Taith o gwmpas y pentref

Sylfaen 1 Holi staff yr Amgueddfa
Sylfaen 2 Offer y grefft
Sylfaen 3 Dŵr a gwlân
Sylfaen 4 Taith o gwmpas y pentref

Canolradd 1 Defaid a gwlân
Canolradd 2 Rhai o dermau'r diwydiant gwlân
Canolradd 3 Teulu Lewis – sefydlwyr Melin Cambrian
Canolradd 4 Taith o gwmpas y pentref

Uwch 1 Rôl merched yn y diwydiant gwlân
Uwch 2 Hanes Melin Cambrian
Uwch 3 Dre-fach Felindre a'r diwydiant gwlân
Uwch 4 Taith o gwmpas y pentref

Cerdd a Chân
Gweithgareddau ar gyfer dysgwyr lefel canolradd ac uwch i fynd gyda'r gerdd a'r caneuon ar y DVD/CD:
Brethyn Cartref – Uwch
Merch o'r Ffatri Wlân – Canolradd / Uwch
Ein Hiaith a'n Brethyn – Canolradd / Uwch



nodiadau i diwtoriaid

Mae'n bwysig eich bod chi'n rhoi gwybod i'r Amgueddfa eich bod chi'n bwriadu ymweld gyda'ch myfyrwyr. Bydd hyn yn ein galluogi ni i sicrhau bod popeth angenrheidiol ar gael i chi ar y diwrnod, ac yn rhoi cyfle i ni deilwra'ch ymweliad at eich anghenion. Byddai'n syniad da ymweld â'r Amgueddfa i ddod i nabod y lle cyn dod â myfyrwyr yma. Os oes angen rhagor o wybodaeth arnoch chi, cysylltwch â Swyddog Addysg yr Amgueddfa.

Rydyn ni wedi rhannu'r adnoddau yn y pecyn hwn ar gyfer lefelau dysgu Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch, ond defnyddir rhywfaint o eirfa arbenigol o fewn y gweithgareddau, ac efallai y bydd ambell i air arall a fydd yn anghyfarwydd i'ch myfyrwyr. Dylech drafod unrhyw eiriau newydd gyda'ch myfyrwyr cyn dod. Croeso i chi ymestyn a datblygu'r gweithgareddau yn ôl eich gwybodaeth chi a phrofiad eich myfyrwyr. Yn y pen-draw chi fydd yn dewis y ffordd orau o ddefnyddio'r Amgueddfa.

Hoffem annog tiwtoriaid i ddatblygu eu deunyddiau eu hunain hefyd. Cysylltwch â swyddog Addysg yr Amgueddfa os ydych chi'n fodlon rhannu enghreifftiau o'ch gweithgareddau chi. Hefyd, byddai'n ddefnyddiol dros ben i ni pe baech chi'n fodlon llenwi'r Daflen Werthuso i Diwtoriaid ar ddiwedd yr adran hon, i fynegi barn ar unrhyw adnoddau y byddwch chi'n eu defnyddio.

Dylech dreulio rhywfaint o amser yn paratoi'r myfyrwyr ar gyfer gwahanol weithgareddau, er mwyn sicrhau eu bod yn deall y cwestiynau a'r gweithgareddau. Byddai'n syniad gwneud tasgau tebyg cyn dod er mwyn magu hyder y myfyrwyr.

Yn olaf, rydyn ni'n awyddus i gasglu adborth y myfyrwyr ar yr adnoddau i'n helpu ni i ddatblygu'r pecyn hwn, a rhai tebyg, yn y dyfodol. A fyddech cystal â rhoi gwybod iddynt ein bod ni am glywed eu barn, a'u hannog i lenwi'r Daflen Werthuso i Fyfyrwyr ar ddiwedd yr adran hon.

I drefnu ymweliad, neu i gael rhagor o wybodaeth am yr Amgueddfa a'r adnodd hwn, ffoniwch y Swyddog Addysg ar (01559) 370929.

gwybodaeth gyffredinol

Amgueddfa Wlân Cymru
Dre-fach Felindre
ger Castellnewydd Emlyn
Llandysul
Sir Gâr
SA44 5UP
Ffôn (01559) 370929
<http://www.amgueddfacymru.ac.uk/cy/gwlan/>

Mynediad

Mae'r Amgueddfa'n cynnig mynediad am ddim i'r holl ymwelwyr, diolch i gefnogaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Amserau agor

Ebrill-Medi: saith niwrnod yr wythnos rhwng 10 am a 5 pm
Hydref-Mawrth: dydd Mawrth i ddydd Sadwrn rhwng 10 am a 5 pm

Ble ydyn ni:

Cartref yr Amgueddfa yw pentref Dre-fach Felindre, 4 milltir i'r dwyrain o Gastellnewydd Emlyn ac 16 milltir i'r gorllewin o Gaerfyrddin, oddi ar yr A484. Dilynwch yr arwyddion brown i Amgueddfa Wlân Cymru.

Cyfleusterau i bobl anabl

Mae lifft neu lwybrau gwastad i'r rhan fwyaf o'r safle.

Cyfleusterau

Mae siop anrhegion, siop goffi a man picnics yn yr Amgueddfa. Yn ogystal, mae cyfleusterau newid cewynnau, cadeiriau i fabanod, maes parcio i geir a bysys, Ystafell Addysg yr Ystordy Ymchwil a'r Cwtsh – man chwarae i blant yn y caffi.

Bwyd a diod

Mae caffi'r Gorlan ar agor bob dydd rhwng 10 am a 4.30 pm. Mae'n gwerthu byrbrydau, brechdanau, cacennau cartref a choffi ffres, te a diodydd ysgafn.

Wrth gyrraedd yr Amgueddfa

Mae maes parcio ceir a bysys ar y safle gyda mannau parcio arbennig i bobl anabl. Dylai bysys barcio'r ochr arall i'r bont yn maes parcio bysys. Mae 8 man parcio beics ar y dde wrth ddod i mewn i safle'r Amgueddfa.

Mae'r brif fynedfa wrth ymyl yr olwyn ddŵr. Os byddwch chi'n parcio yn y maes parcio bysiau, dilynwch yr arwyddion dros y bont fechan i'r fynedfa gefn.

Y tu fewn i'r Amgueddfa, dylai'ch grŵp ymgynnull wrth y Dderbynfa, rhwng y siop a'r caffi, er mwyn i'r arweinydd gofrestru. Wedyn cewch barhau â'ch ymweliad.

gwybodaeth gyffredinol

Yr Ystordy Ymchwil

Ystafell aml-bwrpas yw'r Ystordy Ymchwil sydd ar gael i gynnal sesiynau addysg a chyfarfodydd. Yn yr ystafell hon mae casgliad trin a thrafod yr Amgueddfa, llyfrau ac adnoddau addysg, offer y cyfryngau digidol, cyfrifiaduron a bwrdd gwyn.

Croeso i grwpiau ddefnyddio'r ystafell ar gyfer sesiynau dan arweiniad y tiwtor, ond rhaid bwcio. Os oes angen unrhyw beth arbennig neu dechnegol arnoch, cysylltwch â'r Amgueddfa mewn digon o bryd er mwyn i ni sicrhau llwyddiant eich ymweliad.

Dim ots beth yw'ch amcanion dysgu, mae'r Ystordy Ymchwil yn rhoi cyfle i chi ddysgu rhagor am y casgliadau. Mae'r adnoddau a'r casgliadau trin a thrafod yn cyd-fynd ag arddangosfeydd yr Amgueddfa, gan roi cyfle i chi archwilio casgliadau, straeon a themâu'r Amgueddfa mewn mwy o fanylder. Gallwn ryddhau deunyddiau o'r archif a'r llyfrgell ar gyfer gwaith ymchwil. Cysylltwch â'r Amgueddfa cyn dod i drafod eich gofynion.

I wneud ymholiadau neu i drefnu defnyddio'r Ystordy Ymchwil, ffoniwch yr Amgueddfa ar (01559) 370929.

taflen werthuso i diwtoriaid

Enw a manylion cyswllt (gwirfoddol):

Cymrwch ychydig funudau i lenwi'r ffurflen hon. Gall eich sylwadau ein helpu ni i wella'r adnodd neu'r gwasanaeth. Rhewch atebion mor llawn â phosibl, gan roi enghreifftiau os yw hynny'n briodol.

Am brofiad y myfyrwyr:

1. Ydych chi'n credu bod y myfyrwyr wedi dysgu rhywbeth newydd yn ystod yr ymweliad? Rhewch enghreifftiau.

2. Ydych chi'n credu eu bod nhw wedi cael dealltwriaeth ddyfnach o wersi blaenorol, neu o ran sut i ddefnyddio geiriau neu ymadroddion a ddysgwyd eisoes trwy eu defnyddio yn y cyd-destun hwn? Rhewch enghreifftiau.

3. Pa sgiliau iaith gafodd eu datblygu yn ystod yr ymweliad yn eich barn chi?

4. O ran eich myfyrwyr, ydych chi'n credu bod y profiad wedi:

- eu calonogi am eu gallu yn y Gymraeg?

ydw

nac ydw

sylwadau:

- eu hannog i ddal ati i ddysgu?

ydw

nac ydw

sylwadau:

- ychwanegu gwerth at ddysgu Cymraeg?

ydw

nac ydw

sylwadau:

taflen werthuso i diwtoriaid

5. Ydych chi'n credu eu bod nhw wedi mwynhau'r ymweliad a'r gweithgareddau? Sut gwyddoch chi?

6. Ydych chi'n meddwl bod yr ymweliad wedi ysbrydoli'r myfyrwyr mewn unrhyw ffordd? Os felly, sut?

7. Ydych chi'n meddwl bod y myfyrwyr wedi gwella eu sgiliau dysgu Cymraeg trwy'r ymweliad a'r gweithgareddau? Dywedwch sut.

8. A yw'r ymweliad wedi eich ysbrydoli chi mewn unrhyw ffordd? A fyddwch chi'n gwneud unrhyw beth yn wahanol wrth ddysgu Cymraeg yn dilyn y profiad hwn? Rhowch y manylion.

9. Beth oedd y rhan fwyaf llwyddiannus o'r ymweliad?

10. Sut fyddai modd i ni wella'ch ymweliad?

taflen werthuso i diwtoriaid

11. Pa weithgareddau o'r pecyn wnaethoch chi eu defnyddio?

12. Rhowch sylwadau ar ba mor ddefnyddiol oedd y taflenni gwaith yn eich barn chi ac awgrymwch unrhyw ffyrdd o wella. (Defnyddiwch gefn y daflen hon os oes angen rhagor o le.)

Anfonwch y ffurflen hon drwy'r post at y Swyddog Addysg yn Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gâr SA31 5UP, trwy ebost at wool@amgueddfacymru.ac.uk neu rhowch hi i staff y Siop/Derbynfa yn yr Amgueddfa.

taflen werthuso i fyfyrwyr

Cymrwch ychydig funudau i lenwi'r ffurflen hon. Bydd hyn yn ein helpu ni i wella'n gwaith gyda dysgwyr.

Rhowch gylch o gwmpas un dewis, ac ysgrifennwch unrhyw esiamplau arbennig yn y lle o dan pob cwestiwn.

1. Gwybodaeth a dealltwriaeth

- A wnaethoch chi ddysgu geirfa neu ymadroddion newydd trwy'r gweithgareddau?

llawer rhai dim

Dywedwch fwy: _____

- A wnaeth y gweithgareddau eich helpu chi i ddeall rhywbeth roeddech chi wedi ei ddysgu o'r blaen?

do naddo

Dywedwch fwy: _____

- A wnaeth y gweithgareddau eich helpu chi i ddeall unrhyw beth newydd am sut i ddefnyddio'r Gymraeg?

do naddo

Dywedwch fwy: _____

2. Sgiliau

Ydych chi'n teimlo eich bod chi wedi datblygu unrhyw un o'r sgiliau hyn trwy'r gweithgareddau?

- ▶ darllen Cymraeg
- ▶ ysgrifennu Cymraeg
- ▶ gwranddo ar y Gymraeg
- ▶ siarad Cymraeg
- ▶ cyfieithu o'r Gymraeg

taflen werthuso i fyfyrwyr

- ▶ cyfieithu i'r Gymraeg
- ▶ unrhyw sgiliau iaith eraill
- ▶ unrhyw sgiliau cyffredinol eraill e.e. dysgu i gribo â llaw

- Beth oedd y rhan fwyaf llwyddiannus o'r ymweliad o ran eich helpu chi i wella'ch sgiliau iaith?
- Ydych chi'n teimlo bod yr ymweliad wedi rhoi cyfle i chi ymarfer eich Cymraeg mewn sefyllfa newydd?

ydw nac ydw

Dywedwch fwy: _____

3. Gwerthoedd ac agwedd

- A wnaeth y gweithgareddau eich calonogi am eich gallu yn y Gymraeg?

do naddo

Dywedwch fwy: _____

- A wnaeth y profiad eich annog chi i ddal ati i ddysgu?

do naddo

Dywedwch fwy: _____

- A wnaeth y profiad wneud i chi werthfawrogi'r gallu i siarad Cymraeg yn fwy?

do naddo

Dywedwch fwy: _____

taflen werthuso i fyfyrwyr

4. Mwynhau, ysbrydoliaeth a chreadigrwydd

- A wnaethoch chi fwynhau'r ymweliad?

do naddo

Dywedwch fwy: _____

- A wnaethoch chi fwynhau'r gweithgareddau?

do naddo

Dywedwch fwy: _____

5. Gweithgarwch, ymddygiad, cynnydd

- Ydych chi'n meddwl bod eich gallu i siarad Cymraeg wedi gwella diolch i'r ymweliad yma?

ydw nac ydw

Dywedwch fwy: _____

A fyddwch chi'n gwneud unrhyw beth newydd neu wahanol o ran dysgu Cymraeg yn dilyn yr ymweliad?

- byddaf na fyddaf

Dywedwch fwy: _____

6. Sut gallai'ch ymweliad fod wedi bod yn well?

7. Oes unrhyw awgrymiadau gennych am ddigwyddiadau neu weithgareddau yn yr Amgueddfa a fyddai'n ddiddorol neu'n ddefnyddiol?

taflen werthuso i fyfyrwyr

8. Unrhyw sylwadau eraill?

Anfonwch y ffurflen hon drwy'r post at y Swyddog Addysg yn Amgueddfa Wlân Cymru, Dre-fach Felindre, Llandysul, Sir Gâr SA31 5UP, trwy ebost at wool@amgueddfacymru.ac.uk neu rhwch hi i staff y Siop/Derbynfa yn yr Amgueddfa.

students' evaluation sheet

Please take a few minutes to complete this form. Your views can help us to improve our work with learners.

Please circle one of the options, and tell us about any specific examples you would like to share, in the space below for each question.

1. Knowledge and understanding

- Did you learn any new vocabulary or phrases through the activities?

lots some none

tell us more: _____

- Did you find the activities helped you to better understand anything that you had learnt in previous lessons?

yes not really

tell us more: _____

- Did the activities help you to understand anything new about how to use Welsh?

yes not really

tell us more: _____

2. Skills

Do you feel you have developed any of the following skills through the activities?

- ▶ reading Welsh
- ▶ writing Welsh
- ▶ listening to Welsh
- ▶ speaking Welsh
- ▶ translating from Welsh
- ▶ translating into Welsh

students' evaluation sheet

- ▶ any other language skills
- ▶ any other skills generally e.g. learning to hand card
- Which was the most successful part of your visit towards helping you to improve your language skills?
- Do you feel the visit provided the opportunity for you to practice your existing Welsh in a new context?

yes no

tell us more: _____

3. Attitudes and values

- Did the activities make you feel encouraged about your Welsh language ability?

yes no

tell us more: _____

- Did the experience encourage you to continue with learning?

yes no

tell us more: _____

- Did the experience add to your sense of valuing the ability to speak Welsh?

yes no

tell us more: _____

students' evaluation sheet

4. Enjoyment, inspiration and creativity

- Did you enjoy the visit?

yes no

tell us more: _____

- Did you enjoy the activities?

yes no

tell us more: _____

5. Action, behaviour and progression

- Do you feel you have made progress in your Welsh-language learning through this visit?

yes no

tell us more: _____

- Will you do anything new or differently with regard to your Welsh language learning following this visit?

yes no

tell us more: _____

6. How could we have improved your visit?

7. Do you have suggestions of events or activities at the Museum that you would find interesting or useful?

students' evaluation sheet

8. Do you have any other comments?

Please return this form by post to the Learning Officer at the National Wool Museum, Dre-fach Felindre, Llandysul, Carmarthenshire SA31 5UP, by email to wool@museumwales.ac.uk or via the Shop/Information Desk at the Museum.

taith o gwmpas y pentref – nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Bydd angen i chi fynd ar y daith o gwmpas y pentref gyda'ch myfyrwyr, a bydd angen mynd â'r nodiadau hyn gyda chi a'u dilyn.

Weithiau, mae'r ateb i'w ddarganfod yn y mannau priodol ar y daith. Dro arall mae gofyn i'r myfyrwyr holi, dyfalu neu drafod i ddod o hyd i'r ateb. Isod, nodir yr atebion cywir, ble i'w canfod (pan fydd hynny'n briodol), a phosibiliadau trafod pan fo'r ateb yn fater o farn. Hefyd, bydd angen i chi ddarllen ambell ddarn o wybodaeth i'r myfyrwyr neu ei rhannu â nhw – weithiau er mwyn iddynt ddod o hyd i ateb, a thro arall er mwyn ennyn diddordeb ychwanegol a hyrwyddo'r trafod. Rhaid i chi ddefnyddio'r nodiadau hyn mewn perthynas â'r cwestiynau sydd gan y myfyrwyr.

Nodir y geiriau allweddol sydd eu hangen i ateb y cwestiynau mewn llythrennau italig yn y nodiadau. Hefyd, ychwanegwyd ambell lun i'ch helpu i ddilyn y llwybr.

Ar lefel Mynediad, y dasg yw dewis yr ateb cywir o blith tri phosibiliad ar gyfer pob cwestiwn. Ar ddiwedd y nodiadau mae geirfa ddefnyddiol. Efallai yr hoffech adolygu unrhyw eiriau anghyfarwydd gyda'r myfyrwyr cyn dechrau'r daith.

Cwestiwn 1

Mynediad:

Mae'r sied yn hir.

Sylfaen, Canolradd ac Uwch

Mae *gwydr barugog* ar waelod y ffenestri ohewydd bod y perchnogion am atal y gweithwyr rhag edrych allan gan y gallai hyn dynnu eu sylw oddi ar eu gwaith.

Canolradd ac Uwch:

Ceisiwch gael y myfyrwyr i feddwl am yr holl beiriannau a fyddai wedi bod yn y sied wrth iddynt ystyried y cwestiwn '*Pam roedd eisiau adeilad mor fawr?*'

Uwch yn unig:

Er mwyn helpu'r myfyrwyr i ateb a fyddent wedi hoffi gweithio yno, gallwch dynnu sylw at:

- i. y sŵn a gynhyrchid gan 20 gwŷdd pŵer yno
- ii. y ffaith nad oedd y gweithwyr yn cael siarad
- iii. nad oeddynt yn gallu gweld allan drwy'r ffenestri

taith o gwmpas y pentref – nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Cwestiwn 2

Mynediad:

Mae'r afon yn gul.

Sylfaen:

i droi'r olwyn ddŵr

Canolradd ac Uwch

Rhaid defnyddio gwybodaeth o ffeithiau hanesyddol yma wrth feddwl am *resymau pam oedden nhw'n codi melinau ar lan afonydd*. Yr ateb yw bod melinau yn wreiddiol wedi defnyddio pŵer dŵr o'r afon i weithio'r peiriannau, drwy'r rhod ddŵr. Hefyd, byddent wedi defnyddio dŵr yr afon i olchi, pannu a lliwio cnuoedd, edafedd a defnydd gwllân. Byddai dŵr yn cael ei roi 'nôl yn yr afon wedyn.

Efallai hoffech nodi hefyd:

- Ar un adeg roedd tua 24 melin ar lan afonydd yn ardal Dre-fach Felindre a'r cyffiniau. Ysgrifennodd Daniel E. Jones ym 1897 nad oedd 'o bosibl ddau blwyf (Llangelor a Phenboyr) yng Nghymru yn troi allan gymaint o wlaneni Cymreig ... mae bron holl nerth gallofyddol eu nentydd a'u hafonydd wedi eu ffrwyno i yrru peiriannau ynglyn â'r gelfyddyd. Ni does braidd ysmotyn ar lan afon ynddynt lle y gellir yn gyfleus i osod ffatri na melin ychwanegol'. (Traethawd buddugol yn Eisteddfod Dre-fach a Felindre 1897 a gyhoeddwyd ym 1899.)
- Mae sôn eich bod yn gallu gweld pa liw oedd yn cael ei ddefnyddio ar unrhyw ddiwrnod arbennig trwy edrych ar liw dŵr yr afon islaw'r felin. Wrth i liwio cemegol ddisodli'r hen ddulliau o liwio naturiol, gweithredwyd deddf y gyfraith yn llym i atal hyn rhag digwydd o'r 70au ymlaen.

Uwch yn unig:

Er mwyn helpu'r myfyrwyr i ateb a *ddylen ni fod yn defnyddio dulliau tebyg o gynhyrchu pŵer heddiw a pham*, efallai yr hoffech drafod gwahanol fathau o bŵer cynaliadwy – dŵr, gwynt, heulol ac yn y blaen – hyd yn oed ynni niwclear. Gallwch drafod effaith dulliau traddodiadaol o gynhyrchu pŵer ar y blaned, a'r ffaith bod llawer ohonynt yn ddarfodedig. Oes yna ddadleuon yn erbyn defnyddio rhai o'r dulliau adnewyddiadwy?

taith o gwmpas y pentref – nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Cwestiwn 3

Mynediad:

Mae'r tŷ ar y dde.

Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Perchennog ffatri wlân (Cilwendeg) oedd yn byw yma. Gallwch ddyfalu hyn o sylwi bod y tŷ yn fawr ac yn grand. Hefyd, mae e wedi ei godi ar fryncyn, fel bod pobl sy'n cerdded heibio yn gorfod edrych i fyny ato – arwydd o statws oedd hyn. Hefyd nodwch y sylwadau isod.

Canolradd ac Uwch:

Yr hyn y dylai'r myfyrwyr sylwi arno *am y coed a'r ardd* yw bod llawer o'r planhigion a'r coed yn rhai nad ydynt yn perthyn yn naturiol i'r wlad hon – dyma arwydd o gyfoeth am iddynt gael eu mewnfario at ddibenion addurniadol. Hefyd, mae yma lawnt fawr – efallai ar gyfer chwaraeon hamdden y dosbarth uwch!

Uwch yn unig:

Ymysg syniadau'r myfyrwyr ar *sut roedd bywyd gweithwyr y ffatri yn wahanol i fywyd perchen y tŷ*, gallwch ddisgwyl clywed bod eu tai yn llai, gyda mwy o bobl yn byw mewn llai o ystafelleodd. Nid oedd gweision ganddynt. Ni fyddai gan eu tai yr un cyfleusterau â thai'r meistri.

Cwestiwn 4

Mynediad a Sylfaen:

Mae Cryngae yn fferm.

Nid yw hyn yn amlwg wrth i chi weld yr adeilad o bellter ar y gorwel. Bydd angen rhywfaint o drafod a dyfalu, ond efallai yr hoffech ddefnyddio rhywfaint o'r wybodaeth isod i helpu.

Canolradd ac Uwch:

Ar ôl dod o hyd i Cryngae, darllenwch y darn yma i'r myfyrwyr er mwyn iddynt allu ateb eu cwestiynau yma:



Edrychwch ar y dde a chwiliwch am adeilad i fyny ar ochr y bryn.

Mae sôn y cafodd Cryngae ymwelwr enwog yn ôl yn y bedwaredd ganrif ar ddeg. Yno roedd Cwnstabl Castellnewydd Emlyn yn byw, ac yr oedd hwnnw yn ewythr i'r bardd Dafydd ap Gwilym. Llywelyn oedd enw'r ewythr ac ysgrifennodd Dafydd ddwy gerdd iddo – un yn fawl ac un yn farwnad.

taith o gwmpas y pentref – nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Roedd y bardd yn enwog hefyd am fod yn hoff o ferched, ac ymysg ei gerddi mae un o'r enw *Merched Llanbadarn*, sy'n sôn am sut yr oedd ond yn mynd i'r eglwys ar ddydd Sul i edrych ar y merched! Mae cerdd arall o'r enw *Trafferth mewn tafarn* yn adrodd hanes beth ddigwyddodd iddo un noson pan geisiodd fynd i ystafell merch yn ystod y nos, pan oedd yn aros mewn tafarn.

Cwestiwn 5

Mynediad:

Mae'n hen ffatri wlân.

Sylfaen:

Gall y geiriau sy'n cael eu cynnig i *ddisgrifio adeilad Cilwendeg* gynnwys 'hir', 'tal', 'mawr', 'hen', neu dri gyda'i gilydd fel 'nifer o ffenestri'.

Canolradd ac Uwch:

Gall *disgrifiadau o adeilad Cilwendeg* gynnwys sylwadau ar ei faint, y ffaith ei fod wedi ei wneud o gerrig, neu nodweddion ei bensarniaeth, ac yn y blaen.

Efallai yr hoffech sôn hefyd ei fod yn bosib iawn yr adeiladwyd y ffatri o'r garreg sy'n dod o'r chwarel y gallwch ei gweld y tu ôl i'r ffatri. Yn hanes mwy diweddar yr adeilad, fe'i defnyddiwyd yn ganolfan hamdden i'r ardal. Bellach mae'r adeilad yn gartref preifat.

Cwestiwn 6



Trowch yn ôl i'r chwith, a dilynwch yr heol ymlaen, heibio i arwydd Pwllmarl, ger y byngalos. Trowch i'r chwith unwaith eto, a dilyn y lôn fferm trwy glos fferm Pwllmarl. Ar ôl croesi'r afon, edrychwch i'r dde ar draws y cae.

Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Mae waliau brics 'da ffatri Meiros. Dyma sut mae'r ffatri hon yn wahanol i'r ffatrioedd eraill.

taith o gwmpas y pentref – nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Canolradd ac Uwch:

Bydd rhaid trafod a dyfalu *pam mae'r ffatri wedi ei adeiladu fel hyn*. Gallwch dynnu sylw at y ffaith ei fod yn edrych yn fwy newydd na'r ffatrioedd eraill a gofyn am ba resymau y cafodd ei hadeiladu yn ddiweddarach. Yr ateb yw fod y ffatri Meiros wreiddiol wedi ei llosgi i lawr yn 1920au. Yn ôl telerau polisi yswiriant y ffatri, rhaid oedd ei ailadeiladu. Dyna a wnaethpwyd gan ddefnyddio brics yn ôl arfer y cyfnod. Ni ddefnyddiwyd yr adeilad fel melin wlân eto ar ôl ei ailadeiladu.

Uwch yn unig:

Yn dilyn yr ateb uchod, mae siawns dda y bydd y myfyrwyr yn dyfalu'r isod: *Roedd rhai yn amau fod perchnogion yn gweithredu'n anonest*, oherwydd yn y blynyddoedd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf, daeth y cyfnod o lwyddiant ac elw mawr yn y diwydiant gwlân i ben, a dechreuodd nifer o'r ffatrioedd ffael. Aeth nifer o'r melinau ar dân yn ystod y cyfnod hwn ac mae rhai yn tybio y dechreuwyd rhai o'r tanau yn fwriadol er mwyn cael yr arian yswirant. Dyma pam dechreuodd rhai o'r cwmnïau yswirant fynnu yn eu polisïau bod rhaid i felinau a ddistrywiwyd o ganlyniad i danau gael eu hailgodi.

Cwestiwn 7

Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Mae busnes yno nawr. Busnes gwerthu celfi / dodrefn, Davies and Davies ydyw.

Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Wrth i'r myfyrwyr geisio dyfalu *pam fod enwau Saesneg ar rai o'r ffatrioedd hyn*, gallwch drafod fel yr oedd meibion y cyfoethogion yn aml yn cael eu hanfon i Loegr i gael eu addysg, a bod Saesneg, o ganlyniad, yn cael ei chysylltu felly â statws uchel. Roedd Cymraeg yn cael ei hystyried yn iaith y werin dlawd.

Uwch yn unig:

Dylai'r myfyrwyr weld *fod yr adeilad yn dda ar gyfer y defnydd yma*, am ei fod yn fawr, gydag ystafelloedd hir, eang, oedd mor addas i storio llawer o ddodrefn ag yr oeddynt i fod yn gartref i nifer o beiriannau mawr.



Croeswch y bont nesaf a dilynwch y llwybr i fyny at hen ffatri wlân Square Hall.

taith o gwmpas y pentref – nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Cwestiwn 8

Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Adeiladwyd y capel yn 1809. Gallwch weld hyn wedi ei nodi uwchben prif fynedfa'r adeilad.

Canolradd ac Uwch:

Dylai'r wybodaeth a gasglwyd eisoes yng nghyd-destun hanes y diwydiant yn y pentref fod yn ddigon i'r myfyrwyr ddechrau ystyried *pam fod yn rhaid ailadeiladu'r capel yn 1840 ac yn 1889*. Yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg datblygodd cynhyrchu gyda gwlân yn ddiwydiant llwyddiannus yn yr ardal, ac yn sgîl hynny daeth tŵf ym mhoblogaeth y pentrefi cysylltiedig. Gallwch hefyd holi'r myfyrwyr pwy fyddai wedi bod yn ddiaconiaid ac ati yng nghapel y pentref – y meistri cyfoethog oedd yn gallu fforddio helpu eu capeli yn ariannol, wrth gwrs. Byddai presenoldeb y meistri gwlân fel diaconiaid wedi cael dylanwad ar eu gweithwyr hefyd gan sicrhau cefnogaeth ychwanegol i'r achosion. Efallai y bydd o ddiddordeb i chi ddweud wrth y myfyrwyr bod David Lewis, meist'r cyntaf ffatri Cambrian (yr Amgueddfa heddiw), a'i frawd, wedi bod yn ddiaconiaid yng nghapel Bethel.

Uwch yn unig:

Wrth drafod *pam fod rhai capeli mewn pentrefi tebyg yn cau heddiw* gallwch ystyried:

- dirywiad dylanwad crefydd
- nad oes gan y meistri gymaint o ddylanwad ar ddaliadau crefyddol eu gweithwyr heddiw
- bod pobl yn ymwybodol o fathau gwahanol o grefydd bellach, ac yn gallu teithio i fynychu mannau addoli yn ôl eu dewis.

Cwestiwn 9:

Mynediad, Canolradd ac Uwch:

Roedd perchennog Melin Meiros yn byw yma.

Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Byddwch wedi *gweld yr enw 'Meiros' o'r blaen* wrth i chi drafod Melin Meiros yng nghwestiwn 6. Bydd yr wybodaeth isod yn help i sylweddoli ei arwyddocâd.

Canolradd ac Uwch:

Wrth edrych ar *brif nodweddion y tŷ*, efallai hoffech sylwi ar:

- y ffordd mae e wedi ei adeiladu yn uchel i fyny, fel y 'Y Glyn' a welwyd eisoes ar ddechrau'r daith. Ar beth mae'n edrych i lawr arno gyferbyn?
- yr enw Meiros 'Hall' – sy'n awgrymu crandrwydd
- tŷ gwyrdd Fictorianaid a choed wrth y giât – tystiolaeth o gyfoeth.

Dylai hyn i gyd awgrymu'n gryf taw tŷ meist'r ffatri Meiros oedd hwn.

taith o gwmpas y pentref – nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Uwch yn unig:

Bydd angen i chi drafod *beth fyddai agwedd y werin at dai o'r fath*. Nid oes tystiolaeth o'u barn. Efallai bod y werin yn ddig fod tai y meistri gymaint yn well na'u tai nhw, neu efallai eu bod yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn cael cyd-fyw yn ymyl y fath foethusrwydd.

Cwestiwn 10:

Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Roedd capel o'r enw Pen-rhiw yma. Mae carreg yn nodi hyn ar y fan lle safai'r capel.

Gallwch sôn yn ychwanegol wrth y myfyrwyr mai capel Undodaidd oedd hwn, a byddai plant wedi cael eu dysgu i ddarllen yma. Darganfuwyd 'Welsh Not' yma pan symudwyd y capel.

Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Mae'r capel nawr yn Sain Ffagan: Amgueddfa Werin Cymru.

Canolradd ac Uwch:

Adeiladwyd y capel yn 1777.

Mae'r carreg côf yn dweud 'Yma y safai Capel Undodaidd Penrhiw o 1777 hyd 1953'.

Uwch yn unig:

Wrth ystyried a ydynt yn *cytuno â symud adeiladau hanesyddol ai peidio*, dylid trafod dwy ochr y ddatl:

- efallai y dylai'r adeiladau aros yn eu hardaloedd cysefin
- ydy Sain Ffagan yn gallu sicrhau cadwraeth yr adeiladau yn well?



Pan ddewch at fforch yn yr heol, trowch i'r chwith ac ewch i fyni'r bryn.

taith o gwmpas y pentref – nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Cwestiwn 11



Trowch i'r dde allan o'r fynwent. Dilynwch yr heol nes ichi ddod at dŷ o'r enw Dolwïon.



Gwelwch lôn gul ar y dde yn arwain at ffatri Dolwïon.

Mynediad:

Mae'r ffatri wedi cau.

Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Bydd angen i chi ddarllen yr isod i'r myfyrwyr er mwyn iddynt gael ateb i'r cwestiwn ynglyn â *chysylltiad y ffatri ag Unol Daleithiau America*:

Dyma un o ffatrioedd gwlân hynaf yr ardal, oedd yn enwog am wneud sanau yn arbennig.

Roedd hen bandy yn arfer bod yma cyn y ffatri a welwch heddiw. O'r fan hon y daeth teulu Adams a roddodd yr ail a'r chweched Arlywydd i Unol Daleithiau America (John Adams 1797-1801 a John Quincy Adams 1825-1829.)

Hefyd, fe aeth merch o deulu Adams Dolwïon i'r Unol Daleithiau yn 1894 i'r ffair fasnach enwog, y 'Chicago World Fair'. Dewiswyd Margaret Adams, oedd yn gyfnither o bell i'r Arlywyddion Adams, i gynrychioli diwydiant gwlân Cymru drwy arddangos sgiliau nyddu a gweu.

Uwch yn unig:

Ydyn ni'n rhoi digon o sylw i bobl bwysig sy'n dod o Gymru? Ceisiwch gael y myfyrwyr i feddwl am enghreifftiau o Gymry a ddylai gael eu cydnabod. Trafodwch pam y dylen nhw gael mwy o sylw a sut.

taith o gwmpas y pentref – nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Cwestiwn 12

Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Tea and Coffee Rooms
Efallai yr hoffech ddweud wrth y myfyrwyr bod crasu bara yn arfer digwydd yma hefyd a bod pobl yn arfer dod â'u bwyd eu hunain gan brynu te neu goffi yn unig.

Sylfaen ac Uwch:

Ceisiwch gael y myfyrwyr i adeiladu ar yr hyn maent wedi ei ddarganfod eisoes am y pentref a'r diwydiant er mwyn deall

pam roedd *galw am le fel hwn yn y pentref a sut roedd busnes o'r fath yn gallu ffynnu:*

- roedd tŵf yn niwydiant gwlân yr ardal yn golygu bod yma boblogaeth ddigonol i gynnal busnesau
- roedd pentrefi yn fwy hunangynhaliol yr adeg yna, gan nad oedd teithio yn hawdd. Roedd busnesau fel banc, siop esgidiau a gof yn arfer bod yn y pentref hefyd.
- roedd ymdeimlad cryf o gymuned a llawer yn digwydd yn gymdeithasol yn y pentref. Roedd corau, bandiau, timau chwaraeon ymysg y gweithwyr ffatrïoedd yn gyffredin. Gallwch ddarganfod llawer mwy am hyn yn yr adran 'Hanes y Gymdeithas Leol, Dre-fach Felindre a'r Cylch' yn ôl yn yr Amgueddfa.

Canolradd ac Uwch:

Er mwyn trafod pam does dim lle tebyg yma nawr, gallwch ddechrau drwy ystyried faint o'r uchod sy'n wir am y pentref heddiw. Ystyriwch ddylanwad dirywiad y diwydiant gwlân yn y pentref, gan gynnwys effaith pobl yn gorfod mynd ymhellach i chwilio am waith.



Ewch heibio i ffatri Dolwion a dilynwch y llwybr nes ichi gyrraedd y stryd fawr.

Cwestiwn 13

Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Ysgol Eglwys yw hon. Mae arwydd wrth y giât yn nodi hyn.

Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Enw'r ysgol yw Ysgol Penboyr.

taith o gwmpas y pentref – nodiadau ar gyfer tiwtoriaid

Uwch yn unig:

Y problemau sy'n wynebu ysgolion pentref heddiw yw eu bod yn aml yn cael eu cau i greu ysgolion bro. Gallwch drafod dwy ochr y ddatl ar y pwnc hwn:

O blaid ysgolion bro – mwy economaidd, gwell defnydd ar adnoddau, gwell adnoddau gyda mwy o arian ar gael ar gyfer mwy o fyfyrwyr, mwy o arbenigedd ar gael gan fod mwy o athrawon, mwy o blant i ddysgu a chymdeithasu â nhw.

O blaid ysgolion pentref – mwy o ysbryd cymunedol, a'r ysgol yn helpu gyda hyn yn ehangach, mwy o gyfle i roi sylw unigol gan fod llai o blant, cyfle i bob plentyn gymryd rhan ym mhob gweithgaredd, er enghraifft, drama Nadolig – lle y byddai angen i bob blentyn chwarae rhan allweddol.

Cwestiwn 14

Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

St Barnabas yw enw'r eglwys. Mae arwydd wrth y giât yn nodi hyn.

Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Ar y tair carreg fedd fawr iawn gallwch ddarganfod eu bod yn perthyn i deuluoedd:

Jones – teulu perchnogion Melin Spring Gardens

Evans – teulu perchnogion Melin Square Hall

Jones – teulu perchnogion Melin Rhydwyryn

Uwch yn unig:

Wrth sylwi yma, ac yng yng nghwestiwn 8, ar ddylanwad, a dirywiad dylanwad y meistri gwlân ar grefydd y gweithwyr, mae yma gyfle i ystyried pwy yw'r 'arweinwyr' sy'n dylanwadu ar ein cymunedau heddiw. Ai cynghorwyr, pobl gyfoethog neu â statws, gwleidyddion, enwogion neu bobl â llais uchel sy'n cael mwyaf o ddylanwad?

Cwestiwn 15

Mynediad, Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Enw'r neuadd yw Neuadd y Ddraig Goch. Mae'r enw arno yn glir.

Efallai yr hoffech nodi hefyd bod y teulu Lewis, perchnogion gwreiddiol ffatri Cambrian, lle mae'r Amgueddfa, wedi rhoi arian i dalu am neuadd y pentref sy'n sefyll heddiw, ac am yr un wreiddiol – sef adeilad sy'n sefyll wrtho'i hun, nesaf at res o siopau sy'n union gyferbyn.

Sylfaen, Canolradd ac Uwch:

Gallwch ddarganfod *beth sydd yn digwydd yno*, drwy edrych ar yr hysbysfwrdd, ar unrhyw bosteri neu gallwch holi yn y siopau efallai. Mae drws ochr i'r neuadd ac arno'r arwydd 'snooker'.

Canolradd ac Uwch:

Efallai y gall y myfyrwyr ofyn i'r pobl sy'n gweithio yn y siopau cyfagos *sut cafodd Sgwâr y Giât ei henw*. Yr ateb yw fod tollborth yn arfer bod yma. Yn ystod cyfnod o wrthdystio yn erbyn y tollbyrth, daeth Merched Beca yma a'i losgi i'r llawr.